

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Tachwedd, 2020 dros ZOOM

PRESENNOL

Cynghorwyr : Glyn Davies (Cadeirydd), Alan Henson, Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Lyn Williams, Haf Hughes, Hywel Ifans, Daniel Evans, Owen Llywelyn, Harry Williams

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Johnny Davies

2. PERSONOL

Dim i'w cofnodi

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Dim l'w cofnodi

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Medi 2020 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Alan Henson ac eilwyd gan Y Cyng. Haf Hughes

5.. MATERION YN CODI

10. Cadarnhawyd bod y Clerc wedi cysylltu ag Adran y Priffyrdd am faterion 10i, 10iii, 10iv, a 10v ond heb gael unrhyw ymateb,

10ii. Denfer Morgan wedi siarad gyda PC Helen Yelland. Mae wedi trefnu i un o'i chyd-heddweision fynd mas i gymryd golwg ar y sefyllfa - ond mae hwn yn ddibynol ar flaenoriaethau eraill.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad byr gan Y Cyng. Lynford Thomas. Dywedodd bod gwaith y Cyngor Sir yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus iawn trwy gynnal cyfarfodydd rhithiol. Soniodd am y mater parhaus o lifogydd y tu cefen i'r Felin yn Felinfach a'i fod wedi galw cyfarfod ddydd Gwener yma rhwng y Bwrdd Dŵr a'r Cyngor Sir i geisio datrys y broblem. Nododd hefyd bod 4 achos o Covid-19 wedi eu cadarnhau yn y plwyf ond bod yr unigolion yn hunan-ynysu.

7. CYLLID

i. Oherwydd mai dyma'r flwyddyn gyntaf mae'r Cyngor yn cyflwyno'r cyfrifon ar sail incwm a gwariant cafwyd gwybodaeth gan yr Archwilydd Allanol bod yn rhaid ail-ddatgan ffigurau y flwyddyn gynt (2018/19) ar sail incwm a gwariant. Mae'r gofyniad hwn yn ymddangos yn y '**Practitioners' Guide**', **Pennod 12, Pwynt 260**. Rhaid hefyd ail-gymeradwyo'r cyfrifon mewn cyfarfod llawn.

Mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Mewnol, Mr. Gwyn Jones, paratowyd y ffigurau newydd a dosbarthwyd Datganiad Blynyddol 2019-2020 a'r cyllidebau am 2018-2019 a 2019-2020 wedi eu diwygio ar gyfer eu trafod yn y cyfarfod hwn.

Yn benodol yn y cyfarfod hwn trafodwyd cyfrifon terfynol 2019/20 wedi ei diweddarau i adlewyrchu'r newid yn y TAW ynghyd â chyfrifon 2018/19 wedi ei ail-ddatgan i adlewyrchu y newid i Incwm a Gwariant a'r newid yn ymwneud â'r TAW. Dangoswyd hefyd sut roedd y newidiadau hyn yn effeithio ar, ac yn ymddangos yn y Datganiad Blynyddol.

Yn dilyn y drafodaeth cynigiwyd derbyn y cyfrifon diwygiedig gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Harry Williams ac fe'u cymeradwywyd yn unfrydol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilydd Mewnol Mr, Gwyn Jones am ei barodrydd i gynorthwyo yn y gwaith o sicrhau bod y newidiadau yn cydymffurfio â'r hyn oedd angen i gwblhau'r Archwiliad Allanol.

7ii Trafodion ariannol ers cyfarfod mis Medi;

- a. Tâl y Clerc Mis Medi- yn cynnwys ôl daliad 2% o fis Ebrill - £214.70
- b. Costau'r Clerc Mis Medi £36.66
- c. Tâl y Clerc Mis Hydref £195.50
- d. Derbyniwyd taliad olaf Praesept 2020 - £3316.67
- e. Jac Jenkins - Cost Gweinyddu'r Wefan am ddwy flynedd £205.20
- f. Costau Pabi Coch £30.00
- g. Capel Troedyrhiw – defnydd y Festri ar gyfer cyfarfod Medi £10

7iii Trafodwyd y gweddill yn y cyfrif banc ar 30/10/2020 a rhestrowyd amcangyfrif o'r costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gan fod swm o dros £6,000 yn debygol, pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ail-gydio yn y drafodaeth am brosiect cymunedol arfaethedig a drafodwyd cyn y cyfnod clo. Bydd y Clerc yn paratoi rhai syniadau a grybyllwyd yn y noson dan arweiniad Euros Lewis i'w hystyried.

7iv. Newid yn y Trefniadau Archwilio. Bydd trefn newydd yn dechrau yn 2020-21 sy'n cynnwys rhaglen archwilio dair blynedd er mwyn bodloni gofynion statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd yr archwylwyr yn archwilio cyfrifon cyngor unigol ac olrahin trafodion yn ôl i gofnodion er mwyn cadarnahu cyflawnder a chywirdeb cyfrifon. O ran costau bydd y ffi yn ddigon tebyg i'r ffi bresennol ond bydd cynnydd yn y flwyddyn pan fydd y gwaith manwl yn digwydd. Manylion i ddilyn.

8. CYNLLUNIO

- i. Cadarnhawyd bod cefnogaeth i'r cais wedi ei anfon at y swyddog perthnasol. **A200816 Ffynnonoer Uchaf.**
- ii. **A200882 - Blaenplwyf Ystrad, Abermeurig**, 3 pod gwyliau. Trafodwyd y cais a chynigiwyd ei gefnogi gan Y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Alan Henson a chefnogwyd yn unfrydol. Yn sgil ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu'r Cyngor Sir, ni wnaeth Y Cyng. Lynford Thomas gymryd rhan yn y drafodaeth.

9. **GOHEBIAETH**

Derbyniwyd llythyron diolch am roddion gan:

- i. Gofal Mewn Galar £50
- ii. Tenovus £25.00
- iii. Marie Curie £25.00
- iv. Ambiwylans Awyr £500
- v. Derbyniwyd ceisiadau ariannol newdd wrth: Bopath a Noah's Ark a Cae Chwarae Cribyn
- vi. **Hyfforddiant I Gynghorwyr.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i Un Llais Cymru yn y flwyddyn ariannol bresennol i alluogi pob cyngor i gael uchafswm o ddau le rhad ac am ddim ar unrhyw un o'r modylau craidd canlynol:- Y Cyngor yn Gyflogydd, Cyllid Sylfaenol, Cyllid Uwch, Deall y Gyfraith. Mae yna hyfforddiant parhaus ar gael hefyd trwy weminarau. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Clerc
- vii. Daeth wybodaeth i law am gau hewl yn Dihewyd tan y 12fed o Dachwedd i gwblhau gwaith brys gan y Bwrdd Dŵ=

10. **UNRHYW FATER ARALL** - Dim materion i'w trafod

11. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF** – I'w gadw'n agored o dan y sefyllfa presennol a'r Cadeirydd a'r Clerc i ymghynghori ar unrhyw faterion fydd yn angenrheidiol ar gyfer galw cyfarfod llawn. Y trefniadau gweinyddol i barhau fel ag a drafodwyd yng nglyfarfod Mis Medi 9.ii pwynt 3

Diolchwyd i bawb am ymuno yn y cyfarfod rhithiol cyntaf hwn.

